**Gwasanaethau Pobl – Partner Busnes (PSBP) - Cysylltiadau Gweithwyr**

**Cytundeb Cyfnod Penodol 12 Mis**

****Rhaid ei ddarllen ar y cyd â Meini Prawf Hanfodol ar gyfer Arbenigwr perthnasol – Atodiad 1****

## Disgrifiad Swydd

Gan adrodd i Dîm Rheoli Gwasanaethau Pobl (*Gweler yr Eirfa), mae Partneriaid Busnes Gwasanaethau Pobl (PSGP) yn helpu i gyflawni Blaenoriaethau Allweddol y Cyfarwyddiaeth*

Bydd y tîm Partner Busnes (PB) yn cyfrannu at adeiladu diwylliant cadarnhaol, croesawgar, cydlynol a chynhwysol trwy 'bartneru' ag arweinwyr canol ac uwch trwy eu gwybodaeth arbenigol i ddarparu gwasanaeth arbenigol, cefnogi neu arwain prosiectau, a helpu i ddatblygu polisïau a rhaglenni yn unol â nodau ac amcanion GTADC.

Bydd tîm PB yn cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- Gweithredu fel yr arbenigwyr Rheoli Pobl o fewn eu disgyblaethau; datblygu eraill, hybu ymwybyddiaeth, a chynnig cymorth a chyngor o'u maes arbenigedd i sicrhau profiad rhagorol i weithwyr, gan roi pobl wrth wraidd popeth a wnawn.
- Cefnogi'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Pobl i reoli adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn sicrhau y cyflawnir cytundebau lefel gwasanaeth (CLG), Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ac wrth gydgynhyrchu Gwybodaeth Reoli (MI) ar gyfer holl weithgarwch y bobl craidd yn unol â'n polisïau a'n huchelgeisiau strategol.
- Cyfrannu at brosiectau a rhaglenni sy'n datblygu'n barhaus, yn monitro, yn arloesi ac yn gwella holl weithgareddau gweithredol ein gwasanaethau pobl gan gynnwys systemau a phrosesau.

---

****Sylwer – Rhaid darllen y Proffil Rôl hwn ar y cyd â'r 'Meini Prawf Hanfodol' perthnasol ar gyfer Arbenigedd Partner Busnes mewn perthynas â'r swydd wag a allai fod ar gael (cyf Atodiad 1)****

### Ychydig o resymau pam mai chi a allai fod y person iawn ar gyfer y rôl:

Bydd gan y person cywir y cymwysterau arbenigol, a/neu sgiliau a phrofiad cyfatebol yn ogystal ag angerdd, ar gyfer cymryd yr awenau ar arbenigedd sy'n eistedd o dan un o'r disgyblaethau thematig o fewn y Gyfarwyddiaeth (Gweler y meini prawf hanfodol perthnasol ar gyfer Rôl y Partner Busnes**):

| Cymorth Pobl | Diwylliant ac Ymgysylltu | Twf Sefydliadol |
|---|---|---|
| Pensiynau Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth<br>Systemau, Metrigau a MI | (DICE) Ymgysylltu â Gweithwyr<br>Lles a Llesiant, Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant, Tegwch (DICE) | Dysgu a Datblygu<br>Recriwtio a Chadw |

- Byddwch wedi ymrwymo i ddatblygu timau a'ch hunan; hyfforddi a mentora PB eraill, y tîm GP ehangach ac arweinwyr ar draws y Gwasanaeth - i allu codi ymwybyddiaeth yn wybodus o'ch disgyblaeth neu arbenigedd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiad a diwylliant gweithwyr GTADC.
- Byddwch yn gallu gweithredu gyda meddylfryd ystwyth mewn amgylchedd cyflym, gan bob amser yn ceisio gwella ac esblygu'n barhaus, a byth yn bodloni ar yr ail safle.
- Bydd gennych brofiad o gynllunio ac arwain ar ffrydiau gwaith a phrosiectau lluosol mewn amgylcheddau heriol a chyfnewidiol.
- . Byddwch yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, bydd gennych allu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwell effeithiolrwydd sefydliadol a phrofiad gweithwyr.
- Bydd gennych allu i ddelio â sgyrsiau heriol, anodd a chymhleth.
- Byddwch wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn diwylliant o welliant parhaus, gan ddangos angerdd am ddatrys problemau rhagweithiol, yn gallu rhoi ein gweithwyr wrth wraidd popeth a wnawn gyda dull ‘sut gallwn ni helpu’.
- Byddwch yn gallu cyfrannu at gynhyrchu adroddiadau a metrigau o ansawdd, gyda chyfrifoldeb am adrodd a dadansoddi wythnosol a misol.
- Byddwch yn gallu gweithio’n agos gyda’r tîm ehangach o bobl i sicrhau cysondeb prosesau pobl.
- Byddwch yn gallu cefnogi’r Tîm Rheoli Gwasanaethau Pobl i reoli ein pobl a’n hadnoddau i eithafu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gan sicrhau profiad gwych i weithwyr.
- Byddwch yn ymrwymo i weithredu fel Hyrwyddwr Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch (DICE), gan gymryd rhan weithredol mewn prosiectau, gan hyrwyddo mentrau ac ymgyrchoedd.

Nid ydym yn chwilio am rywun a fydd yn eistedd i lawr ac yn dweud, "bydd hynny'n gwneud y tro." Byddwn yn gwerthfawrogi agwedd bositif, ystwythder, arloesedd a chydweithiwr gwych. Mae ein nodau uchelgeisiol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaeth cyfan yn gyfle ardderchog ar gyfer newid. Byddwn yn gweithio’n galed i gyflawni, ac mae llawer i’w wneud, ond mae’r posibiliadau ar gyfer cael effaith yma yn ddiddiwedd.

**Beth sy’n bwysig i ni?**

- **Profiad arbenigol profedig a/neu gymwysterau mewn un neu fwy o'r Arbenigeddau sy'n perthyn i un o'r disgyblaethau thematig o fewn y Gyfarwyddiaeth.**

*(**Gweler atodiad 1 am feini prawf Hanfodol ar gyfer pob un o'r Arbenigeddau); a*

- Hanes profedig o gyfrannu at gyflawni prosiectau lluosol gyda blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a galwadau amrywiol gan randdeiliaid, tra'n gweithredu i derfynau amser tynn.
- Meddwl ymlaen llaw a gallu datrys problemau'n annibynnol, gyda llawer o fentergarwch, egni a chymhelliant personol.
- Y gallu i gydweithio'n effeithiol ac effeithlon gyda rhanddeiliaid lluosol (mewnol ac allanol), i sicrhau y cyflawnir cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth. Byddwch yn angerddol dros bobl ac yn awyddus i helpu i siapio'r amgylchedd gwaith yn GTADC gan ei wneud yn lle croesawgar, cynhwysol a chyffrous i fod ynddo.
- Byddwch yn talu sylw i fanylion ac yn blaenoriaethu sicrhau bod gennym ddata glân, byddwch yn poeni am gael pethau'n iawn y tro cyntaf a bydd gennych y gallu i gynhyrchu metrigau credadwy, gan feddu ar sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar eglur, cryno a dylanwadol.
- Awydd i wella'n barhaus, gyda'r gallu i adnabod cyfleoedd sy'n ceisio gwella eich perfformiad eich hun a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl.
- Byddwch yn gallu dangos eich bod yn cymryd rhan weithgar mewn mentrau i ehangu eich gwybodaeth a'ch arbenigedd mewn meysydd sy'n bwysig i'ch arbenigedd (cadw gwybodaeth gyfredol am arferion gorau, rheoleiddio a newidiadau deddfwriaethol), rôl PB a'r Gyfarwyddiaeth yn gyffredinol.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| PSC | Prif Swyddog Cynorthwyol |
| DICE | Diversity, Inclusion, Cohesion, Equity Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniad, Cyfiawnder |
| CGP | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl |
| PGP | Pennaeth Gwasanaethau Pobl |
| PG | Pennaeth Gwasanaeth |
| DPA | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| GRh | Gwybodaeth Rheoli |
| AP | Adolygiadau Personol |
| GP | Gwasanaethau Pobl |
| PBGP | Partner Busnes Gwasanaethau Pobl |
| RhGP | Rheolwr Gwasanaethau Pobl |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| GTADC | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

## Gwasanaethau Pobl – Partner Busnes (PSBP) - Cysylltiadau Gweithwyr

## Cytundeb Cyfnod Penodol 12 Mis

****Rhaid ei ddarllen ar y cyd â Meini Prawf Hanfodol ar gyfer Arbenigwr perthnasol – Atodiad 1****




### Atodiad 1: Meini Prawf Hanfodol Arbenigedd

1 <u>Partner Busnes – Ymgysylltu â Gweithwyr … (Swydd Wag Gyfredol)</u>

1.1 Cymhwyster

1.2 Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) neu gymhwyster cyfwerth a/neu brofiad perthnasol o fewn rôl Ymgysylltu â Gweithwyr a/neu amgylchedd AD

1.3 Gwybodaeth gadarn a chyfredol o arfer gorau Deddfwriaeth Gyflogaeth

1.4 Profiad o gydweithio, ymgysylltu a thrafod gydag Undebau Llafur, Cynghorau Gwaith, Fforymau Staff

1.5 Profiad o Reoli Achosion ac ymdrin â materion Disgyblu a Chwyno cymhleth hyd at y diwedd

1.6 Medrus mewn datrys gwrthdaro a thechnegau cyfryngu

1.7 Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol